

(Gweler isod y rheolau sy'n llywodraethu ein defnydd o'r Gronfa Strategaeth)

5.9 Atodiad 9: Cronfeydd Strategaeth

Nod Cynlluniau a Chronfeydd Strategaeth yr Henaduriaethau

- 5.9.1 Disgwylir i'r Henaduriaethau gynllunio eu gweinidogaeth a'r defnydd o'u hadnoddau i'r dyfodol o fewn tiriogaeth yr Henaduriaeth neu mewn cydweithrediad â Henaduriaethau cyfagos a'u hadolygu yn flynyddol.
- 5.9.2 Mae'r term Adnoddau yn cynnwys adeiladau, buddsoddiadau, arian parod a phobl. Mae gan yr Henaduriaethau ddyletswydd i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael iddynt ac i annog yr eglwysi o fewn yr Henaduriaeth i weithredu yn yr un modd.
- 5.9.3 Dylai Cynllun Strategaeth yr Henaduriaeth gyflwyno darlun o'r hyn y mae'r Henaduriaeth yn amcanu ei gyflawni o fewn amser penodedig, a'r adnoddau angenrheidiol i weithredu hyn.
- 5.9.4 Mae Cronfa Strategaeth yr Henaduriaeth yn cynnwys arian wedi ei glustnodi (50% ar hyn o bryd) o arian gwerthiant adeiladau diangen er mwyn cynnal y gwaith a amlinellir yn y Cynllun Strategaeth. Efallai y bydd gan Henaduriaethau gronfeydd eraill, ychwanegol ar gael i ariannu eu Cynllun Strategaeth.
- 5.9.5 **Adolygu a Chymeradwyo Cynlluniau Strategaeth**
- 5.9.6 Disgwylir i'r Henaduriaethau fonitro yn flynyddol unrhyw ddatblygiadau ar sail eu Cynllun Strategaeth, gan gyflwyno Cynlluniau Strategaeth wedi eu diweddarau bob pum mlynedd a'u hadolygu'n flynyddol.
- 5.9.7 Bydd hyn yn cynnwys:
 - 5.9.7.1 Gwariant fydd yn galluogi eglwys leol i ymwneud â gwaith newydd, neu i ddatblygu gwaith cyfredol na fyddai'n bosibl fel arall;
 - 5.9.7.2 Adeiladu adeilad neu estyniad newydd gan gynnwys offer a chelfi gosod newydd
 - 5.9.7.3 Addasiadau i saerïaeth adeilad sydd eisoes yn bod
 - 5.9.7.4 Offer a chelfi gosod mewn adeiladau sydd eisoes yn bod
 - 5.9.7.5 Ail-doi
 - 5.9.7.6 Gwariant ar addasu adeilad neu waith angenrheidiol er mwyn cyfarfod â newidiadau mewn gofynion cyfreithiol i'r dyfodol e.e.y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd
 - 5.9.7.7 Offer i hyrwyddo gwaith cenhadol e.e. offer clyweled
 - 5.9.7.8 Penodi gweithwyr am dymor penodedig i gyflawni gwaith cenhadol, gwaith gyda phobl ifanc neu waith cymdeithasol
- 5.9.8 Ni chaniateir defnyddio Cronfeydd Strategaeth i:
 - 5.9.8.1 Brynu neu wario ar Fansau
 - 5.9.8.2 Gwaith cynnal a chadw cyffredinol neu waith sydd wedi ei achosi gan ddiffyg gwaith cynnal a chadw ar eglwysi neu adeiladau perthynol
 - 5.9.8.3 Unrhyw waith arall sydd heb ei nodi yng Nghynllun Strategaeth yr Henaduriaeth neu ar adeilad sydd heb ei nodi fel Canolfan o fewn y Cynllun Strategaeth.
- 5.9.9 Bydd unrhyw log a enillir yn ystod y flwyddyn, ac nas defnyddiwyd yn cael ei ychwanegu at gyfalaf y Gronfa
- 5.9.10 Gellir defnyddio'r cronfeydd dros gyfnod estynedig e.e. defnyddio cyfanswm o £18,000 dros gyfnod o 3 blynedd sef £6,000 y flwyddyn er mwyn cefnogi gweithiwr cenhadol.
- 5.9.11 **Adrodd yn ôl a Monitro Cronfeydd**
- 5.9.12 Darperir gan y Swyddfa Ganolog ddatganiad o'r hyn sy'n weddill yng Nghronfa Strategaeth yr

- Henaduriaeth bob 12 mis, a dangosir yr holl weithgarwch ariannol dros y cyfnod hwnnw.
 - 5.9.13 Pan fo'r arian i'w ddefnyddio dros gyfnod estynedig e.e. arian yn daladwy mewn symiau cyfartal dros dair blynedd, bydd yn cael ei nodi fel arian a neilltuywyd, ac yn cael ei ddangos ar wahân i'r balans cyffredinol.
 - 5.9.14 Bydd adroddiad cryno ar falansau Cronfeydd yr Henaduriaethau, yn dangos y cyfalaf a'r llog a enillwyd, yn cael ei gyflwyno i'r Gymdeithasfa ar ddiwedd pob blwyddyn.
 - 5.9.15 **Trefniannau Rhyddhau Arian o'r Cronfeydd**
 - 5.9.16 Ni chaniateir unrhyw wariant, na phenodiadau hyd nes y bydd caniatâd llawn wedi ei roi.
 - 5.9.17 Y mae lefel y caniatâd angenrheidiol yn dibynnu ar faint y cais. Gweler isod.
- | Swm y cais | Angen caniatâd: | |
|---------------|----------------------------------|----------------------------------|
| | Pwyllgor Adnoddau'r Henaduriaeth | Pwyllgor Adnoddau'r Gymdeithasfa |
| Hyd at £2,500 | √ | - |
| £2,501 + | √ | √ |
- 5.9.18 Rhaid cyflwyno unrhyw gais sy'n ymwneud ag ariannu person mewn swydd i'r Henaduriaeth a'r Gymdeithasfa, waeth beth yw'r swm sydd wedi ei nodi yn y cais. Hyn er mwyn i Adran y Gweinidogaethau gael cyfle i wneud yn siwr fod y trefniannau penodi yn dilyn y polisiau a gytunwyd a gweithdrefnau EBC.
 - 5.9.19 Wrth benderfynu pa lefel o ganiatâd sydd ei angen, bydd y swm a nodir yn y cais fel arfer yn cynnwys TAW, a bydd yn dangos cyfanswm y prosiect, nid y gwahanol elfennau cyfansodol.
 - 5.9.20 Os yn gwneud cais am offer, dodrefn, ffitiadau neu waith ar adeilad, rhaid darparu'r gwaith papur canlynol i gefnogi'r cais:
 - 5.9.20.1 Ffurflen gais sydd wedi ei chwblhau. Y ffurflen ar gael gan Ysgrifennydd yr Henaduriaeth, o'r Swyddfa Ganolog neu ar y wefan www.ebpcw.org.uk
 - 5.9.20.2 Amcangyfrifon i gadarnhau'r gwariant arfaethedig – dau amcangyfrif am wariant o £5,000 neu lai; tri ar gyfer gwariant o fwy na £5,000. Os mai'r bwriad yw derbyn pris sydd heb fod yr amcangyfrif isaf, rhaid cyflwyno eglurhad ysgrifenedig o hyn.
 - 5.9.20.3 Pan fo'r prosiect yn golygu gwaith adeiladu, rhaid darparu copïau o gynlluniau neu ddyluniadau'r pensaer ynghyd â manylion y pensaer gan gynnwys yswiriant indemniad proffesiynol.
 - 5.9.20.4 Adroddiad blynyddol diweddaraf yr eglwys neu'r corff sydd yn gwneud y cais.
 - 5.9.21 Os yn gwneud cais am gyllid i ariannu gweithiwr, rhaid darparu'r gwaith papur canlynol i gefnogi'r cais:
 - 5.9.21.1 Disgrifiad o'r prosiect gan gynnwys y prif amcanion
 - 5.9.21.2 Disgrifiad swydd, y gofynion personol a thymor y swydd
 - 5.9.21.3 Datganiad o bwy/pa gorff fydd y cyflogwr
 - 5.9.21.4 Manylion yr holl bartneriaid sy'n ymwneud â'r prosiect
 - 5.9.21.5 Y ffynonellau ariannol arfaethedig a chyllideb ar gyfer holl gyfnod y prosiect
 - 5.9.21.6 Strategaeth ymadael ar ddiwedd cyfnod dynodedig y prosiect.
 - 5.9.22 Wedi cymeradwyo ceisiadau, bydd Ysgrifennydd yr Henaduriaeth neu Ysgrifennydd y Gymdeithasfa (yn dibynnu ar swm y cais) yn hysbysu'r eglwys leol a'r Swyddfa Ganolog yn syth. Bydd y Pennaeth Ariannol yn gwneud trefniadau addas i ryddhau'r arian.